# Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 Llywodraeth Cymru – Dyletswydd Adran 6: Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau

**Adroddiad ar gyfer 1 Ionawr 2023 i 31 Rhagfyr 2025**

## 1. Cyflwyniad

Mae’r adroddiad hwn yn amlinellu ystod o gamau gweithredu a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru i gyflawni dyletswydd bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau adran 6 yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ionawr 2023 a 31 Rhagfyr 2025. Mae’n crynhoi camau gweithredu ar draws y llywodraeth, y canlyniadau a gyflawnwyd, a’r alinio ag amcanion y Cynllun Gweithredu Adfer Natur[1].

### 1.1 Dyletswydd bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau adran 6

Mae adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn rhoi dyletswydd (dyletswydd adran 6) ar awdurdodau cyhoeddus i geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau wrth arfer eu holl swyddogaethau. Mae’r ddyletswydd yn cynnwys y gofyniad i awdurdodau cyhoeddus gyhoeddi adroddiad bob tair blynedd ynghylch y camau gweithredu y maent wedi’u cymryd sy’n cyfrannu at gydymffurfio â’r ddyletswydd, a dyma adroddiad Llywodraeth Cymru ynghylch dyletswydd adran 6 ar gyfer y cyfnod rhwng 2023 a 2025.

Rydym yn arfer y ddyletswydd o fewn y sefydliad ei hun drwy reoli ystadau, ac yn allanol drwy’r swyddogaethau sydd wedi’u datganoli i Gymru, sy’n cynnwys yr amgylchedd, amaethyddiaeth, cynllunio a thrafnidiaeth.

Mae Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru yn nodi chwe amcan ar gyfer mynd i’r afael â’r ffactorau sy’n peri i fioamrywiaeth gael ei cholli ac ar gyfer hybu adferiad, a dylai’r rheini lywio’r camau gweithredu a gymerir i gydymffurfio â dyletswydd adran 6. Dyma’r amcanion:

[1] Cynllun gweithredu adfer Natur | LLYW.CYMRU

**Amcan 1**: Ennyn a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth er mwyn i fioamrywiaeth fwrw gwreiddiau yn y broses benderfynu ar bob lefel.

**Amcan 2**: Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd sydd o'r pwys mwyaf a'u rheoli'n well.

**Amcan 3**: Gwneud ein hamgylchedd naturiol yn fwy cydnerth drwy adfer cynefinoedd sydd wedi'u diraddio a chreu cynefinoedd.

**Amcan 4**: Mynd i'r afael â'r prif bwysau ar rywogaethau a chynefinoedd.

**Amcan 5**: Gwella ein tystiolaeth, ein dealltwriaeth a'n gwaith monitro.

**Amcan 6**: Rhoi fframwaith llywodraethu a chymorth ar waith i gyflawni'r amcanion.

Mae rheoli mannau gwyrdd yn allweddol i wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth, ond mae dyletswydd adran 6 yn mynd y tu hwnt i gamau gweithredu sy'n targedu bioamrywiaeth yn uniongyrchol ac mae'n cynnwys unrhyw weithgarwch sy'n ei chefnogi. Mae mesurau megis ailgylchu, lleihau defnydd o ynni a hyrwyddo teithio cynaliadwy nid yn unig yn cyfrannu i darged Cymru o ran sero net ond hefyd yn helpu i gyflawni amcan 4 y Cynllun Gweithredu Adfer Natur drwy fynd i'r afael â'r prif bwysau ar rywogaethau a chynefinoedd drwy leihau defnydd o adnoddau a lleihau llygredd. Mae unrhyw gam gweithredu sy'n fuddiol mewn unrhyw ffordd i fioamrywiaeth yn cyfrannu at gyflawni'r ddyletswydd.

**1.1 Y prif gyflawniadau**

- Y Gronfa Rhwydweithiau Natur: dros £21 miliwn wedi'i ddyfarnu i 68 o brosiectau sy'n atgyfnerthu safleoedd gwarchodedig ar y tir a'r môr a chysylltedd ecolegol sy'n allweddol i gydnerthedd ecosystemau.

- Amaethyddiaeth: parhad o Glastir drwy Gynlluniau Buddsoddi Gwledig a Chynlluniau Paratoadol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, sy'n cynnwys Cynllun

Cynefin Cymru, Tyfu er mwyn yr Amgylchedd, Grantiau Bach – Amgylchedd, Troi'n Organig a Chymorth Organig. Mae'r rhain yn cefnogi bioamrywiaeth drwy reoli cynefinoedd, sicrhau gwelliant o ran y newid yn yr hinsawdd, a hyrwyddo dulliau cynaliadwy o reoli tir.

- Rheoli Llygredd Amgylcheddol: gweithredu Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 gyda chymorth cyllid gorfodi ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru, a £69 miliwn wedi'i neilltuo i grantiau seilwaith ffermydd, sy'n gwella cyfleusterau storio slyri.

- 30x30: cyhoeddi fframwaith i Gymru, buddsoddiad wedi'i dargedu mewn Ardaloedd Morol Gwarchodedig, a sefydlu llwybrau sy'n cynnwys safleoedd Naturfa a chyflwyno Tirweddau Dynodedig, a fydd yn cyfrannu at greu a gwella cyflwr cynefinoedd presennol.

- Coedwigaeth: gwella'r gwaith o greu ac adfer coetiroedd, ehangu Coedwig Genedlaethol Cymru, defnyddio pwerau amgylcheddol newydd yn ymwneud â thrwyddedau cwympo coed a chynlluniau grant sy'n gwarchod cynefin â blaenoriaeth.

- Dŵr: wedi buddsoddi £56 miliwn i wella ansawdd dŵr yng Nghymru ers 2022, sydd yn ei dro'n fuddiol i fioamrywiaeth drwy leihau llygredd.

- Economi Gylchol: wedi cyflwyno rheoliadau newydd ynghylch ailgylchu yn y gweithle ac wedi cyflwyno mesurau ynghylch cyfrifoldeb estynedig cynhyrchwyr; mae trefniadau caffael y sector cyhoeddus yn ymgorffori cynaliadwyedd er mwyn lleihau pwysau ar rywogaethau a chynefinoedd.

- Lleoedd Lleol ar gyfer Natur: £21 miliwn yn 2024/25 a buddsoddiad parhaus gan sicrhau miloedd o welliannau gwyrdd lleol a chynnwys gwirfoddolwyr.

- Rhywogaethau Estron Goresgynnol: cyflawni strategaeth Prydain Fawr, ymgynghori ynghylch cynlluniau gweithredu amryw lwybrau, bioreolaeth wedi'i thargedu a chapasiti i ymateb yn gyflym er mwyn lleihau eu heffaith ar rywogaethau a chynefinoedd.

- Tirweddau Dynodedig: cyllid craidd a chyfalaf ar gyfer mwy nag un flwyddyn, allbynnau wedi'u targedu o ran bioamrywiaeth, a lansio Ffermio Bro (2025/26) ar gyfer ymdrechion ar raddfa'r dirwedd i adfer natur drwy gydweithio.

- Y Gronfa Rhwydweithiau Natur: dros £21 miliwn wedi'i ddyfarnu i 68 o brosiectau sy'n atgyfnerthu safleoedd gwarchodedig ar y tir a'r môr a chysylltedd ecolegol.

**1.2 Canlyniadau wedi'u mesur**

- 71 cilomedr o derfynau traddodiadol caeau wedi'u hadfer a 61 hectar o rywogaethau estron goresgynnol wedi'u clirio a'u rheoli mewn Tirweddau Dynodedig.

- Hau 14,829 m² o hadau blodau gwyllt a phlannu 5,709 o goed/prysglwyni brodorol ar hyd cefnffyrdd.

- Plannu coed brodorol ar raddfa fawr yn rhan o'r cynlluniau Rheoli Llifogydd yn Naturiol – 18,000 o goed ym Mharc Cwm Darren, 88,000 yn y Foel.

- 2,149 o fannau gwyrdd wedi'u creu neu wedi'u gwella yn sylweddol drwy'r cynllun Lleoedd Lleol ar gyfer Natur.

- Gwelliannau i fioamrywiaeth ar eiddo Llywodraeth Cymru, sy'n cynnwys gwarchod cynefinoedd ar gyfer cornchwiglod, amffibiaid ac ymlusgiaid,

diogelu nythod gweilch y pysgod, a gosod blychau ystlumod ac adar a waliau gwyrdd.

- Cyflwyno Deddf Cynhyrchion Plastig Untro 2023 sy'n gwahardd eitemau plastig untro.

- Ar gyfer y cyfnod rhwng 2024 a 2025, cafodd 17,285 cilogram o wastraff TGCh ei ailddefnyddio neu'i ailgylchu.

## 2. Crynodeb o'r camau gweithredu

Caiff ystod gynrychiadol o'r camau gweithredu a gymerwyd yn ystod y cyfnod yr adroddir yn ei gylch eu crynhoi isod:

### 2.1 Ystadau Gweinyddol

Cyflawnodd swyddfeydd gweinyddol Llywodraeth Cymru welliannau o ran bioamrywiaeth a oedd yn benodol i safleoedd, a oedd yn cynnwys waliau byw, planhigion brodorol yn cael eu plannu, pyllau, gwenynfeydd, blychau bywyd gwyllt, a glaswellt yn cael ei dorri'n llai aml er mwyn meithrin blodau gwyllt a phlanhigion sy'n garedig i bryfed peillio. Mae camau gweithredu eraill yn cynnwys defnyddio llechi Cymreig at ddibenion gwahanol ar ôl gosod paneli solar ffotofoltäig, ennill achrediad effeithlonrwydd dŵr (dyfarniad Checkmark gan Waterwise) a darparu cyfleusterau ailgylchu cynhwysfawr.



*Dau ffasâd y wal fyw flaen yn swyddfa Aberystwyth yn 2023*



*Torri glaswellt mewn modd sy'n garedig i fioamrywiaeth yn y swyddfa ym Merthyr Tudful*



*Cartref i ddraenogod ym Merthyr Tudful*

# Bioamrywiaeth

## ar draws ystad weinyddol Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

### Gwella bioamrywiaeth a lles

Gall gwella bioamrywiaeth ein hystad helpu i **leihau** ein hallyriadau ac **adeiladu** ein gallu i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd, yn ogystal â darparu lle **deniadol** i weithio.



**Aberystwyth, Rhodfa Padarn**

- Blychau ystlumod
- Baddonau adar
- Blychau adar
- Bwydwyr adar
- Gwenynfa (mewn cydweithrediad â chymdeithas cadw gwenyn Aber)
- Cuddfannau cacwn
- Cartrefi chwilod
- Biniau compost
- Cartrefi draenogod
- Cuddfan nadroedd defaid
- Waliau Byw
- Pwll dŵr
- Gorsaf dywydd i fonitro glöynnod byw
- Ardal blodau gwyllt
- Defnyddio gronynnau coffi wrth dirlunio

**Caerfyrddin, Teras Picton**

- Blychau adar
- Bwydwr adar
- Gerddi blodau gwyllt
- Wal Fyw

**Abertawe, Llys-y-Ddraig**

- Blychau adar
- Bwydwyr adar
- Pwll dŵr
- Ardal blodau
- Cartrefi chwilod
- Wal Fyw





**Cyffordd Llandudno, Sarn Mynach**

- Blychau ystlumod
- Gwenynfa (mewn cydweithrediad ag arbenigwr Vinci a chymdeithas cadw gwenyn Conwy)
- Blychau adar
- Bwydwyr adar
- Cartrefi chwilod
- Cartrefi draenogod
- Pwll dŵr
- Ardaloedd blodau gwyllt

**Merthyr Tudful, Parc Busnes Rhydycar**

- Gwenynfa (mewn cydweithrediad â Beacon Bees)
- Baddonau adar
- Bwydwyr adar
- Cartrefi chwilod
- Tŷ llyffantod
- Mainc gardd a blychau adar (wedi eu gwneud â llaw gan Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion, Merthyr)
- Cartrefi draenogod
- Ardaloedd blodau gwyllt
- Pwll dŵr
- Cartref glöynnod byw
- Waliau Byw



**Caerdydd, Parc Cathays**

- Gerddi cyfeillgar i bryfed peillio
- Gardd blodau gwyllt ar y to

OGL WG51174 © Hawlfraint y Goron 2024

I gael rhagor o wybodaeth anfonwch e-bost at **bioamrywiaeth@llyw.cymru**

**Amcanion y Cynllun Gweithredu Adfer Natur: 1, 3, 4, 6**

## 2.2 Amaethyddiaeth

Bu Rhaglen Datblygu Gwledig yr UE (2014–2020, a estynnwyd i 2023), Cynlluniau Buddsoddi Gwledig (2024) a Chynlluniau Paratoadol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (2025) yn cefnogi bioamrywiaeth drwy reoli cynefinoedd a thir ffermio a thrwy fesurau'n ymwneud â phryfed peillio, gwelliannau i ansawdd dŵr, a chamau gweithredu'n ymwneud â'r hinsawdd.

Tan 2023, **Glastir Uwch** oedd y prif gynllun amaeth-amgylcheddol, a oedd yn targedu cyflawni canlyniadau cadarnhaol o safbwynt rheoli tir yn gynaliadwy, a oedd yn cynnwys helpu i atal colli bioamrywiaeth yn ogystal â gwella ansawdd dŵr a phridd, lleihau risg llifogydd a gwella tirweddau. Erbyn 2023 roedd yn cynnwys dros 211,422 hectar a oedd yn cynnwys 62,879 hectar o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Roedd **Tir Comin Glastir** yn cynnwys 177 o diroedd comin (114,798 hectar).

Roedd cynlluniau eraill y Rhaglen Datblygu Gwledig yn cynnwys **Grantiau Bach Glastir** ar gyfer gwaith cyfalaf i greu gwrychoedd newydd ac i adfer gwrychoedd presennol er mwyn gwella cysylltedd, a phlannu coed er mwyn gwella cydnerthedd ecosystemau.

<u>Cynllun Cynefin Cymru 2024</u>

Roedd y cynllun yn cynnig parhad i'r sawl a oedd yn cymryd rhan yn Glastir Uwch ac yn cynnig mynediad ar gyfer ymgeiswyr newydd. Roedd yn gwarchod ardaloedd presennol o gynefin ac yn ychwanegu tir newydd at drefniadau rheoli. Roedd cyfanswm y cynefin yn cyfateb i dros 233,000 hectar, a oedd yn cynnwys 38,400 hectar o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.

<u>Cynllun Cynefin Cymru 2025</u>

Cafodd ei gyflwyno dan Gynlluniau Paratoadol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, gan gyd-fynd â Gweithred Gyffredinol 5 y Cynllun hwnnw (rheoli cynefinoedd sy'n bodoli eisoes) sy'n ymdrin â 245,000 hectar o gynefin.

Tyfu er mwyn yr Amgylchedd

Mae'n cefnogi porthiant mewnbwn isel wedi'i dyfu gartref a chnydau buddiol i fioamrywiaeth, sy'n paratoi ffermwyr ar gyfer camau gweithredu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy sy'n ymwneud â chreu cynefinoedd. Ar gyfer y cyfnod rhwng 2024 a 2026, cafodd contractau eu dyfarnu a oedd yn ymdrin â thros 3,000 hectar o gnydau.

Grantiau Bach – Amgylchedd

Grantiau cyfalaf ar gyfer gwrychoedd, plannu coed, a gwaith amgylcheddol arall. Mae wyth rownd wedi esgor ar waith adfer o bwys a gwaith plannu newydd, ac wedi arwain at adfer oddeutu 196 chilomedr o wrychoedd a 105 cilomedr o waith plannu newydd. Yn 2024/25, gwnaeth contractau ychwanegol gefnogi 144 cilomedr pellach o waith adfer a 73 chilomedr o waith plannu newydd.

Cynlluniau Organig

Mae ffermio organig yn hybu rheoli tir yn gynaliadwy mewn ardaloedd lle mae bioamrywiaeth yn fwy tebygol o gael ei cholli.

Cynllun Troi'n Organig 2023: 3,246 hectar o dir yn cael ei droi'n organig.
Cynllun Troi'n Organig 2026: 3,198 hectar o dir wedi'i dderbyn i'w droi'n organig.
Cymorth Organig 2024–25: Ei ddiben yw annog arferion ffermio organig parhaus, ac mae'r cynllun yn cynnwys 51,275 hectar o dir.

Rheoli Llygredd Amaethyddol

Mae rheoliadau a gyflwynwyd yn 2021 yn lleihau llygredd oherwydd maethynnau, sy'n cael effaith negyddol ar fioamrywiaeth drwy amharu ar gydbwysedd ecosystem. Mae'n cynnwys cyllid i Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer cydymffurfio

a gorfodi, a £69 miliwn sydd wedi'i fuddsoddi mewn grantiau seilwaith. Mae cyfraddau methu â chydymffurfio wedi gostwng o 63% i 53% rhwng 2023 a 2025.

Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (o 2026 ymlaen)

Cafodd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ei ddatblygu dan Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023, ac mae'n mynnu bod 10% o'r ffermydd sy'n cymryd rhan yn cael eu rheoli fel cynefin a bod safleoedd dynodedig yn cael eu gwella. Bydd yn disodli'r Cynllun Taliad Sylfaenol erbyn 2029, gan gynnig camau gweithredu ar gyfer creu cynefinoedd, adfer rhywogaethau a chydweithio ar raddfa'r dirwedd.

**Amcanion y Cynllun Gweithredu Adfer Natur: 1, 2, 3, 4, 5, 6**

## 2.3 Bioamrywiaeth a'r Môr

### 30x30

30x30 yw'r targed byd-eang i warchod a rheoli'n effeithiol 30% o'r tir, dŵr croyw a'r môr erbyn 2030, a gytunwyd dan Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang COP15.

Ym mis Mehefin 2025, cyhoeddodd Cymru ei Fframwaith 30x30[2] sy'n diffinio meini prawf ar gyfer ardaloedd sy'n cyfrif tuag at y targed ac sy'n sicrhau eu bod yn ffurfio rhwydwaith ecolegol cydnerth.

Yn dilyn Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth 2022, mae Cymru yn parhau â dau lwybr tuag at 30x30:

Safleoedd gwarchodedig (e.e. Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Ardaloedd Cadwraeth Arbennig), a gefnogir gan y Rhaglen Rhwydweithiau Natur, y Cynllun Grant Rheoli Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig, ac o 2026 ymlaen y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a fydd yn cynorthwyo ffermwyr ymhellach i reoli tir er budd bioamrywiaeth o fewn safleoedd gwarchodedig.

[2] Fframwaith 30x30 i Gymru | LLYW.CYMRU

Safleoedd Naturfa, sef system newydd sy'n cydnabod mannau â graddau cyfwerth o werth a rheolaeth o ran bioamrywiaeth. Mae cynllun peilot wrthi'n datblygu offer asesu a gwaith adfer arfaethedig er mwyn helpu safleoedd i fodloni meini prawf ar gyfer cael eu cydnabod.

Mae prosiectau a ariennir gan grantiau'n ymwneud ag Ardaloedd Morol Gwarchodedig ar gyfer 2025–26 yn cynnwys Cynllun Gweithredu Morfeydd Heli, Monitro Ffliw Adar ar Ynys Gwales, monitro pysgod mudol yn Aber Afon Dyfrdwy, a gwaith ar fioddiogelwch morol. Mae'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur yn adolygu Fframwaith Rheoli Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig Cymru er mwyn sicrhau ei fod yn dal i gyd-fynd â safonau'r DU a safonau rhyngwladol.

Mae buddsoddiadau wedi'u targedu yn cynnwys:

£100,000 (2024–25) ar gyfer Rhwydwaith Morwellt Cymru, sy'n cefnogi cynllun cenedlaethol i adfer 266 hectar o forwellt erbyn 2030.

- £30,000 i sefydlu Rhwydwaith Morfeydd Heli Cymru.
- £100,000 (2024–26) i ymestyn prosiect Bioddiogelwch i Gymru y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar, sy'n cryfhau camau i atal rhywogaethau goresgynnol a llywodraethu safleoedd adar môr oddi ar y lan ar gyfer yr hirdymor.

Bydd Tirweddau Dynodedig hefyd yn ganolog i 30x30, a gefnogir drwy'r cynllun Ffermio Bro i sbarduno adferiad natur ar raddfa'r dirwedd (gweler hefyd yr adran ynglŷn â Safleoedd Dynodedig).

Mae **Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru)**[3] wrthi'n cael ei ddatblygu er mwyn ymgorffori'r egwyddorion amgylcheddol yn neddfwriaeth Cymru, sefydlu corff goruchwylio, a

[3] Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru)

chreu fframwaith pennu targedau bioamrywiaeth gyda gofynion monitro ac adrodd.

**Tystiolaeth:** Mae'r Rhaglen Monitro a Modelu Materion Gwledig a'r Amgylchedd[4] a'r Platfform Modelu Integredig wedi llywio'r gwaith o ddatblygu polisi, gan gynnwys y gwaith o ddylunio'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy ac o adrodd ynghylch tueddiadau cenedlaethol.

Mae **Asesiadau Effaith Integredig** yn parhau i ymgorffori bioamrywiaeth ar draws meysydd polisi eraill.

Mae **Canolfannau Cofnodion Amgylcheddol Lleol Cymru** yn cael cyllid gwerth £119,000 y flwyddyn er mwyn cynorthwyo i gasglu data biolegol, cofnodi rhwydweithiau, a sicrhau bod gwybodaeth am fioamrywiaeth yn dal i fod ar gael ar draws Cymru.

**Prosiectau LIFE:** Mae dau brosiect o bwys wedi'u cyllido:

Prosiect Pedair Afon LIFE – Prosiect adfer afonydd (2021–2026), a arweinir gan Cyfoeth Naturiol Cymru ac sy'n werth £10 miliwn, sy'n gwella cyflwr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Cleddau, Teifi, Tywi a Wysg. Mae'r camau gweithredu'n cynnwys gwaredu rhwystrau sy'n atal pysgod rhag mudo, gwella cynefinoedd afonydd, lleihau maethynnau a gwaddodion sy'n cyrraedd yr afonydd, a mynd i'r afael â rhywogaethau goresgynnol a phlastig.

Corsydd Crynedig LIFE – Prosiect yr UE a Llywodraeth Cymru (2022–2026), a arweinir gan Cyfoeth Naturiol Cymru ac sy'n werth £5 miliwn, sy'n adfer corsydd crynedig a mignenni pontio Ardaloedd Cadwraeth Arbennig. Mae mesurau'n rhoi sylw i ddraenio a hydroleg, yn lleihau biomas a chyfoethogi oherwydd maethynnau, yn ailgyflwyno pori, ac yn rheoli rhywogaethau goresgynnol. Mae'r prosiect yn ymdrin â saith o Ardaloedd Cadwraeth Arbennig sy'n cynnwys Cors

[4] Y Rhaglen Monitro a Modelu Materion Gwledig a'r Amgylchedd | ERAMMP

Crymlyn, Rhos Goch a'r Preseli, ac mae'n ceisio gwella cydnerthedd a chefnogi rhywogaethau megis brith y gors.

**Y Gronfa Rhwydweithiau Natur**

Mae'r Gronfa Rhwydweithiau Natur yn hybu adferiad natur yng Nghymru drwy wella safleoedd gwarchodedig ac atgyfnerthu cysylltedd ecolegol, gan greu Rhwydwaith Ecolegol Cydnerth. Caiff ei darparu gyda Chronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol a Cyfoeth Naturiol Cymru, ac mae'n darparu grantiau gwerth £50,000–£1 filiwn i sefydliadau sy'n gwella cydnerthedd safleoedd ar y tir a'r môr. Rhwng 2023 a 2025, mae 68 o brosiectau wedi'u cyllido ac mae dros £21 miliwn wedi'i ddyfarnu.

Mae rhagor o fanylion ac enghreifftiau o brosiectau eraill i'w gweld yma.

**Natur am Byth**

Rydym yn buddsoddi £800,000 dros bedair blynedd mewn prosiect a arweinir gan Cyfoeth Naturiol Cymru i wrthdroi dirywiad rhywogaethau sydd mewn perygl a rhywogaethau eiconig. Mae'r rhaglen yn cydweithio ag elusennau amgylcheddol ac yn cynnwys naw o ardaloedd â ffocws ar draws amgylcheddau ar y tir, mewn dŵr croyw ac ar y môr, gan gyflawni menter fwyaf Cymru ym maes treftadaeth naturiol ac allgymorth er mwyn achub rhywogaethau ac ailgysylltu pobl â natur.

**Nabod Natur**

Mae'r cwrs hyfforddiant Nabod Natur yn meithrin capasiti staff i fynd i'r afael â'r argyfwng natur drwy gryfhau dealltwriaeth o'r cysylltiadau rhwng pobl a natur ac ymgorffori dulliau gweithredu o blaid natur mewn polisi. Yn ystod y cyfnod yr adroddir yn ei gylch, cwblhaodd 50 o gydweithwyr y cwrs. Mae adolygiad a gwerthusiad ar y gweill i sicrhau bod y cwrs yn parhau'n berthnasol ac yn effeithiol.

**Pryfed Peillio**

Tasglu'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Pryfed Peillio

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal cyfarfodydd chwemisol o'r Tasglu Pryfed Peillio, sy'n galluogi partneriaid i rannu arfer gorau. Lansiodd y Tasglu y cynllun Caru Gwenyn yn 2016, ac mae tua 130 o sefydliadau erbyn hyn yn cyflawni camau gweithredu sy'n garedig i bryfed peillio. Mae Hyrwyddwyr Caru Gwenyn yn dal i hyrwyddo'r fenter, gyda chymorth swyddogion Llywodraeth Cymru.

Ar lefel y DU, rydym yn cyfrannu i'r Cynllun Monitro Pryfed Peillio, gan gyfuno cofnodion hirdymor ag arolygon newydd er mwyn tracio newid mewn poblogaethau. At hynny, sefydlodd y Tasglu is-grŵp ynghylch ymylon ffyrdd a glaswelltiroedd amwynder, gan lansio'r ymgyrch 'Iddyn Nhw'[5] yn 2022 gyda phecynnau cymorth, pecynnau addysg ac arwyddion i annog arferion torri glaswellt sy'n garedig i fioamrywiaeth.

Cynllun Gwenyn Iach 2030

Cafodd Cynllun Gwenyn Iach 2030 ei gyhoeddi ar y cyd â Defra, a'i nod yw cryfhau bioddiogelwch, cynorthwyo gwenynwyr a defnyddio ymchwil i wella iechyd gwenyn mêl. Caiff trefniadau gweithredu eu goruchwylio gan y Fforwm Cynghori ar Iechyd Gwenyn. Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu'r Uned Wenyn Genedlaethol er mwyn hyrwyddo hwsmonaeth dda a lleihau risgiau plâu a chlefydau drwy archwiliadau ac addysg yng Nghymru.

## Gweithgor Dyletswydd Adran 6

Mae'r gweithgor Adran 6, sy'n cynnwys awdurdodau cyhoeddus a sefydliadau ambarél, yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn i rannu arfer da ym maes bioamrywiaeth. Bu'r cyflwyniadau yn ymdrin â lleihau defnydd o blaladdwyr, rheoli glaswelltiroedd er budd pryfed peillio, a chydnerthedd ecosystemau. Roedd gweithdai ychwanegol yn cynnwys rhai ynghylch bioamrywiaeth a

[5] Ymgyrch Iddyn Nhw: pecyn cymorth i randdeiliaid | LLYW.CYMRU

chynllunio, digwyddiad cynghorau cymuned Powys, a chynhadledd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn Wrecsam.

**Strategaeth Gwarchod Teulu'r Morfil y DU**

Mae Strategaeth Gwarchod Teulu'r Morfil y DU, a arweinir gan Lywodraeth yr Alban, yn rhoi sylw i rywogaethau llamidyddion, dolffiniaid a morfilod yn nyfroedd y DU. Mae chwe argymhelliad yn targedu pwysau sy'n cynnwys ansawdd dŵr, sgil-ddalfeydd a sŵn tanddwr, a chaiff ymyriadau eu cefnogi drwy'r Cynllun Grant Rheoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig neu'r Gronfa Rhwydweithiau Natur.

**Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru**

Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru (£115,000 bob blwyddyn, ynghyd â £10,000 ar gyfer ei chynhadledd yn 2025). Mae'r Bartneriaeth yn darparu porth bioamrywiaeth ac yn dod â rhanddeiliaid ynghyd. Bu'r gynhadledd ddiweddar yn Aberystwyth yn canolbwyntio ar gydweithio, arloesi, cyllid gwyrdd a monitro.

**Partneriaeth Moroedd ac Arfordiroedd Cymru**

Mae Partneriaeth Moroedd ac Arfordiroedd Cymru, a gaiff ei chynnull a'i hariannu gan Lywodraeth Cymru, yn gwireddu'r weledigaeth dan Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru, sef cael moroedd glân, iach a bioamrywiol. Mae'r gwaith yn cyd-fynd â Nod Datblygu Cynaliadwy 14 y Cenhedloedd Unedig ac yn canolbwyntio ar dri galluogydd: llythrennedd cefnforol, buddsoddi cynaliadwy, a chapasiti arfordirol. Mae'r gwaith cyflawni yn cynnwys y Strategaeth Llythrennedd Cefnforol (Y Môr a Ni), cydlynwyr arfordirol rhanbarthol, Cronfa MARINE Cymru, a chydweithio gan arbenigwyr ar dargedau bioamrywiaeth.

**Strategaeth Gwarchod Adar Môr Cymru**

Mae Strategaeth Gwarchod Adar Môr gyntaf Cymru, a ddatblygwyd gyda chyrff statudol a rhanddeiliaid, yn ymdrin â 29 o rywogaethau. Mae argymhellion sy'n

seiliedig ar dystiolaeth yn mynd i'r afael ag 20 o bwysau, a disgwylir i'r strategaeth gael ei chyhoeddi ddechrau 2026.

**Amcanion y Cynllun Gweithredu Adfer Natur: 1, 2, 3, 4, 5, 6**

## 2.4 Cadw

Gwnaeth Cadw integreiddio bioamrywiaeth yn ei drefniadau rheoli tir ar draws 130 eiddo drwy adolygu trefniadau cynnal a chadw, sefydlu blodau gwyllt a chyflwyno cynlluniau rheoli safleoedd a hyfforddiant i staff, sydd wedi gwella amrywiaeth cynefinoedd gan sicrhau ar yr un pryd bod arwyddocâd hanesyddol a phrofiad ymwelwyr yn cael eu gwarchod.



Adolygiad cyffredinol o eiddo Cadw a'i drefniadau torri glaswellt/rheoli, gan chwilio am brosiectau posibl i wella bioamrywiaeth, megis torri glaswellt yn llai aml a chreu reidiau drwy ardaloedd coediog.

**Amcanion y Cynllun Gweithredu Adfer Natur: 1, 3, 4, 5, 6**

## 2.5 Economi Gylchol

Mae camau gweithredu'r strategaeth Mwy nag Ailgylchu wedi'u symud yn eu blaen, sy'n cynnwys rheoliadau ailgylchu yn y gweithle[6] (2024), cyfrifoldeb estynedig cynhyrchwyr am ddeunydd pecynnu[7] (2024), datblygu cynllun dychwelyd ernes, ailddefnyddio seilwaith, a chymorth busnes er mwyn lleihau defnydd o ddeunyddiau a gwastraff, gan fynd i'r afael â'r ffactorau sy'n peri i fioamrywiaeth gael ei cholli.

**Amcanion y Cynllun Gweithredu Adfer Natur: 1, 4, 5, 6**

## 2.6 Y Newid yn yr Hinsawdd

Strategaeth ymgysylltu â'r cyhoedd[8] (2023–2026) drwy Weithredu ar Hinsawdd Cymru a gyflawnodd ymgyrchoedd, Wythnos Hinsawdd Cymru[9], a 'Sgyrsiau am yr Hinsawdd' a ariannwyd gan grantiau[10], a gryfhaodd ddealltwriaeth y cyhoedd o'r cysylltiadau rhwng natur, datgarboneiddio ac addasu, a oedd yn cynnwys tynnu sylw at y cysylltiadau rhwng natur, datgarboneiddio ac addasu i'r hinsawdd[11].

**Amcanion y Cynllun Gweithredu Adfer Natur: 1, 4, 5, 6**

---

[6] Ailgylchu yn y gweithle | LLYW.CYMRU
[7] Cyfrifoldeb estynedig cynhyrchwyr am ddeunydd pecynnu | LLYW.CYMRU
[8] Gweithredu ar Hinsawdd Cymru: Strategaeth ymgysylltu â'r cyhoedd 2023 i 2026 | LLYW.CYMRU
[9] Wythnos Hinsawdd Cymru – Gweithredu ar Hinsawdd Cymru
[10] Cronfa Sgyrsiau am yr Hinsawdd – Gweithredu ar Hinsawdd Cymru
[11] Bioamrywiaeth a natur – Gweithredu ar Hinsawdd Cymru

## 2.7 Tirweddau Dynodedig

Un o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yw bioamrywiaeth, ac mae'n un o'r prif gamau gweithredu yn llythyr y Gweinidog ynghylch tymor y llywodraeth[12] i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ar gyfer 2022-26 ac yn Llythyr Grant Strategol 2025-26. Bu'r Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a National Landscapes yn symud camau gweithredu'r Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth yn eu blaen, ac yn mapio natur ac yn ailalinio cynlluniau, gyda chymorth cyllid craidd a chyfalaf gan gyflawni gwaith ym maes rheoli rhywogaethau goresgynnol, adfer cynefinoedd, adfer terfynau, plannu coed ac ymdrin â thir a reolir er budd bioamrywiaeth. Cafodd Ffermio Bro[13] ei lansio ym mis Mai 2025 er mwyn galluogi cadwraeth gydweithredol ar raddfa'r dirwedd mewn ardaloedd dynodedig.

**Amcanion y Cynllun Gweithredu Adfer Natur: 1, 2, 3, 4, 5, 6**

## 2.8 Deddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) 2023

Cyflwynodd y ddeddfwriaeth hon[14] waharddiadau ar blastigau untro sy'n creu sbwriel ar raddfa eang, ac mae'n darparu pwerau ar gyfer gwaharddiadau pellach (e.e. ar weips gwlyb sy'n cynnwys plastig). Mae rheoliadau ynghylch cyfrifoldeb estynedig cynhyrchwyr ac ailgylchu yn y gweithle'n lleihau gwastraff ac yn cefnogi canlyniadau'n ymwneud ag economi gylchol.

**Amcanion y Cynllun Gweithredu Adfer Natur: 1, 4, 6**

## 2.9 Rhywogaethau Estron Goresgynnol

[12] Awdurdodau parciau cenedlaethol: llythyr cylch gwaith tymor y llywodraeth | LLYW.CYMRU
[13] Ffermio Bro – Ffermio mewn Tirweddau Dynodedig (Cam 1): llyfryn rheolau [HTML] | LLYW.CYMRU
[14] Deddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023 | LLYW.CYMRU

Rhywogaethau Estron Goresgynnol yw planhigion ac anifeiliaid a gyflwynwyd gan bobl, sy'n ymledu ac sy'n niweidio ecosystemau, yr economi, iechyd a'r gymdeithas. Nhw yw'r bygythiad mwyaf ond un i fioamrywiaeth (colli bioamrywiaeth yw'r bygythiad mwyaf) ac un o'r pum prif ffactor byd-eang sy'n peri i fioamrywiaeth ddirywio. Roedd cyflawni ar sail Strategaeth Rhywogaethau Estron Goresgynnol Prydain Fawr, sy'n ceisio lleihau gymaint ag y bo modd y graddau y cânt eu cyflwyno ar graddau y maent yn ymsefydlu, yn cynnwys ymgynghori ynghylch cynlluniau gweithredu amryw lwybrau (sŵau, anifeiliaid anwes, rhwyfo neu hwylio cychod, genweirio, garddwriaeth). Rydym yn ariannu nifer o brosiectau megis dull Cyfoeth Naturiol Cymru o reoli'r llyfrothen uwchsafn[15] drwy gyflwyno ysglyfaethwyr brodorol, ehangu Arolygiaeth Rhywogaethau Estron Goresgynnol Prydain Fawr, ymchwil CABI i fioreolaeth ar gyfer jac y neidiwr a chorchwyn Seland Newydd, a fframweithiau cydweithredol drwy Rwydwaith Ecolegol Gwydn Cymru.

**Amcanion y Cynllun Gweithredu Adfer Natur: 1, 4, 5, 6**

## 2.10 Coedwigaeth

Mae coed a choetiroedd yn golygu bod Cymru yn gydnerth i'r newid yn yr hinsawdd, yn gyfoethog o ran bywyd gwyllt, ac yn gefnogol i fwyd, swyddi a'r economi wledig.

Ehangodd Coedwig Genedlaethol Cymru wrth i goetiroedd gael eu creu a'u hadfer, a oedd yn cynnwys Coetiroedd Bach trefol a choetiroedd cymunedol drwy grantiau. Mae pwerau newydd i ddefnyddio ac amrywio amodau amgylcheddol ar drwyddedau cwympo coed (o fis Ebrill 2024 ymlaen) yn cryfhau gwarchodaeth. Mae'r Cynllun Adfer Coetir[16] yn mynd i'r afael ag effeithiau Phytophthora

---

[15] Cyfoeth Naturiol Cymru / Cyflwyno pysgod brodorol i reoli rhywogaethau goresgynnol yn Sir Gaerfyrddin

[16] Cynllun Adfer Coetir | Is-bwnc | LLYW.CYMRU

ramorum[17] ac yn hyrwyddo amrywio rhywogaethau dan Safon Goedwigaeth y DU. Nod y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yw plannu coed ar 17,000–21,500 hectar erbyn 2030. Mae dros £2.8 miliwn wedi'i fuddsoddi mewn prosiectau tirwedd cydweithredol sy'n bodloni pob un o chwe chanlyniad Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r rhaglen hefyd yn cynnwys 23 o Goetiroedd Bach[18] mewn ardaloedd trefol, a grëwyd gan ddefnyddio dulliau o blannu coed brodorol yn ddwys, a 64 o brosiectau'r Grant Buddsoddi mewn Coetir er mwyn gwella coetiroedd cymunedol.

**Amcanion y Cynllun Gweithredu Adfer Natur: 1, 2, 3, 4, 5, 6**

## 2.11 Technoleg Gwybodaeth (Cyfarpar Trydanol ac Electronig Gwastraff)

Rydym yn defnyddio darparwr Cyfarpar Trydanol ac Electronig Gwastraff sy'n gyfleuster trin awdurdodedig a chymeradwy. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn ein harchwilio yn rheolaidd ac rydym yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth amgylcheddol gan gynnwys y Gyfarwyddeb Cyfarpar Trydanol ac Electronig Gwastraff. Mae hynny'n helpu bioamrywiaeth drwy leihau'r galw am adnoddau naturiol, wrth i gyfarpar gael ei ailddefnyddio a'i ailgylchu. Ar gyfer y cyfnod rhwng 2024 a 2025, dyma nifer a phwysau'r cyfarpar a ailddefnyddiwyd ac a ailgylchwyd gennym:

| Hierarchaeth gwastraff | Categori gwastraff TGCh | Nifer | Pwysau (kg) |
|---|---|---|---|
| **AILDDEFNYDDIO** | Eitemau i'w gwerthu'n fasnachol | 2,514 | 5,769.75 |

[17] Phytophthora ramorum | LLYW.CYMRU
[18] Coetiroedd Bach | LLYW.CYMRU

| | | | |
|---|---|---|---|
| **AILGYLCHU (gwastraff nad yw'n beryglus)** | Eitemau wedi torri (nad ydynt yn beryglus) | 3,214 | 10,457.58 |
| **AILGYLCHU (gwastraff peryglus)** | Eitemau wedi torri (sy'n beryglus) | 101 | 1,057.73 |
| **CYFANSYMIAU** | — | 5,829 | 17,285.06 |

**Amcanion y Cynllun Gweithredu Adfer Natur: 4, 5**

## 2.12 Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi

Gwnaeth pum rownd ariannu ers yr adroddiad diwethaf gefnogi 71 o brosiectau â thros £3.2 miliwn o fuddsoddiad wrth ymyl safleoedd tirlenwi a safleoedd trosglwyddo gwastraff, gan gyflawni bioamrywiaeth, gwelliannau amgylcheddol a dulliau o leihau gwastraff / dargyfeirio gwastraff o safleoedd tirlenwi.

Mae rhagor o wybodaeth a manylion am rai o'r prosiectau a ariannwyd i'w gweld yma.

**Amcanion y Cynllun Gweithredu Adfer Natur: 1, 3, 4, 6**

## 2.13 Y Rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur

Cafodd ei sefydlu yn 2020 i wella natur mewn ardaloedd lleol, gyda chyfanswm o £21 miliwn o wariant yn 2024/25 a £15 miliwn wedi'i ddyrannu ar gyfer 2025/26. Mae'r cynlluniau yn cynnwys y canlynol:

- Mae Partneriaethau Natur Lleol, a reolir gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ar draws holl barciau cenedlaethol ac awdurdodau Cymru, yn darparu cyngor arbenigol er mwyn sbarduno adferiad natur

hirdymor. Mae eu gwaith eisoes wedi dylanwadu ar arferion torri glaswellt a rheoli ymylon, sy'n cael eu prif-ffrydio ar draws Cymru o 2025–27 ymlaen er mwyn ymgorffori arfer da.

- Y Cynllun Pecynnau Cymunedol. Mae pecynnau y talwyd amdanynt ymlaen llaw'n cael eu darparu i grwpiau cymunedol bach er mwyn creu gerddi natur.
- Y Cynllun Chwalu Rhwystrau. Caiff cymorth ei ddarparu i grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol a grwpiau y mae'n anodd eu cyrraedd er mwyn eu helpu i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n seiliedig ar natur.
- Y Cynllun Adeiladu Capasiti mewn Cymunedau Arfordirol. Mae'n hybu adeiladu capasiti a chydweithio mewn ardaloedd arfordirol er mwyn helpu i feithrin twf cynaliadwy ac adferiad natur (gweler y cofnod ynghylch y Bartneriaeth Moroedd ac Arfordiroedd).
- Cynllun Tirwedd y Goedwig Genedlaethol. Darparwyd cyllid i brosiectau tirwedd er mwyn hybu cydweithio a chyflawni canlyniadau'r Goedwig Genedlaethol.

| Allbwn (2023/24 a 2024/25) | Cyfanswm |
|---|---|
| **Mannau gwyrdd a grëwyd neu a gafodd eu gwella'n sylweddol** | 2,149 |
| **Dolydd bywyd gwyllt/ymylon â threfn newydd ar gyfer torri glaswellt** | 562 |
| **Perllannau cymunedol a grëwyd** | 307 |
| **Prosiectau tyfu cymunedol** | 799 |
| **Y gwirfoddolwyr a fu'n cymryd rhan** | 25,956 |
| **Y coed a blannwyd (hectarau)** | 443 hectar (amcangyfrif) |

**Amcanion y Cynllun Gweithredu Adfer Natur: 1, 3, 6**

## 2.14 Plaladdwyr

Cyflawnir ar sail Cynllun Gweithredu Cenedlaethol y DU ar Blaladdwyr (2025–2030) er mwyn hyrwyddo defnydd cynaliadwy a lleihau effeithiau, sy'n cynnwys mabwysiadu dulliau gweithredu Rheolaeth Integredig ar Blâu[19] yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, darparu hyfforddiant i awdurdodau lleol, a datblygu cymorth ynghylch penderfyniadau'n ymwneud â rheoli rhedyn er mwyn lleihau dibyniaeth ar gemegolion. Mae camau gweithredu eraill yn cynnwys hyrwyddo dulliau cynaliadwy o reoli plâu a thir drwy lansio rhestr bostio'n ymwneud â phlaladdwyr, darparu hyfforddiant i awdurdodau lleol ynghylch dulliau rheoli heblaw cemegolion, a chydweithio â NatureScot a Natural England i ddatblygu fframwaith rheoli rhedyn ac offeryn gwneud penderfyniadau er mwyn lleihau defnydd o gemegolion.

**Amcanion y Cynllun Gweithredu Adfer Natur: 1, 4, 5, 6**

## 2.15 Cynllunio

Mae Fersiwn 12 Polisi Cynllunio Cymru[20] a Cymru'r Dyfodol – Y Cynllun Cenedlaethol 2040[21] yn darparu'r fframwaith cenedlaethol. Cafodd Pennod 6 Polisi Cynllunio Cymru ei ddiweddaru yn 2023 er mwyn egluro budd net i fioamrywiaeth drwy ddull fesul cam o weithredu a gwarchodaeth gryfach ar gyfer Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Mae Polisi 9 Cymru'r Dyfodol yn cael ei weithredu drwy brosiect peilot Gwastadeddau Gwent, sy'n mapio rhwydweithiau ecolegol gwydn.

---

[19] Rheolaeth Integredig ar Blâu | LLYW.CYMRU
[20] Polisi Cynllunio Cymru | LLYW.CYMRU
[21] Cymru'r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol 2040 | LLYW.CYMRU

Mae canlyniadau'n dod i'r amlwg wrth i'r polisïau hyn sy'n fuddiol i fioamrywiaeth fwrw gwreiddiau mewn cynlluniau datblygu lleol a phenderfyniadau, a ategir gan lywodraethiant drwy'r Fforwm Cynllunio a Bioamrywiaeth.

**Amcanion y Cynllun Gweithredu Adfer Natur: 1, 2, 3, 4, 5, 6**

## 2.16 Caffael

Mae Datganiad Polisi Caffael Cymru yn ymgorffori bioamrywiaeth drwy'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Caiff risgiau o ran cynaliadwyedd eu hasesu ar draws trefniadau caffael, ac mae rheoliadau newydd dan Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023[22] yn hybu caffael cyfrifol o safbwynt cymdeithasol sy'n cyd-fynd â datblygu cynaliadwy. Mae caffael fflyd o gerbydau trydan ar y cyd yn dangos ffyrdd o leihau carbon a manteision i gadwynau cyflenwi.

**Amcanion y Cynllun Gweithredu Adfer Natur: 4, 6**

## 2.17 Eiddo

Mae'r swyddogaeth Seilwaith Eiddo, a gyflawnir drwy'r Cynllun Busnes Eiddo, yn cynnwys:

- Cynllun Cyflenwi Eiddo: cyflenwi eiddo a safleoedd cyflogaeth newydd, yn aml ar dir y mae Llywodraeth Cymru yn berchen arno.
- Rheoli Asedau: rheoli portffolio eiddo Llywodraeth Cymru ar gyfer defnydd busnes ac ar gyfer datblygu yn y dyfodol.

[22] Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) | LLYW.CYMRU

Mae'r ddau linyn yn gweithredu dan y Strategaeth Rheoli Asedau Corfforaethol, sy'n alinio twf economaidd â lleihau allyriadau ac â gwerth cymdeithasol a chydnerthedd amgylcheddol. Caiff bioamrywiaeth ei hymgorffori'n gyffredinol, ac mae prosiectau'n integreiddio seilwaith gwyrdd/glas, mannau agored, teithio llesol, ac adeiladau carbon isel.

Mae portffolio tir Llywodraeth Cymru yn cynnwys cynefinoedd amrywiol sy'n cynnal rhywogaethau megis tylluanod gwyn, dyfrgwn, ystlumod a brithiaid y gors, a cheir cyfleoedd i sicrhau gwelliannau a chysylltedd. Mae cynlluniau mawr yn destun Asesiadau Effaith Amgylcheddol/Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd gyda chyfraniad gan Cyfoeth Naturiol Cymru, ecolegwyr a chyrff anllywodraethol, ac mae ar uwchgynlluniau angen mesurau bioamrywiaeth sy'n cynnwys cynlluniau draenio cynaliadwy ac arfarniadau ecolegol.

Mae asesiadau ecolegol yn costio £100–200,000 fesul safle ar gyfartaledd, a chaiff costau rheoli hirdymor eu hymgorffori mewn contractau. Er bod datblygu'n gallu effeithio ar fioamrywiaeth, mae prosiectau'n aml yn sicrhau enillion net drwy greu cynefinoedd, adfer tir llwyd a chyflwyno mesurau cydnerthedd a gaiff eu llywio gan fframwaith DECCA Cyfoeth Naturiol Cymru[23].

**Trefniadau Llywodraethiant ac Arwain Drwy Esiampl**

Mae Llywodraeth Cymru yn ymgorffori cynaliadwyedd a bioamrywiaeth yn y gwaith o gyflenwi eiddo, drwy ganllawiau gorfodol a goruchwyliaeth. Mae'r Offeryn Integreiddio Datblygu Cynaliadwy a Chanllawiau Bioamrywiaeth yn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ac maent ar waith ar draws pob is-adran a phrosiect.

Mae hyfforddiant i staff a disgwyliadau clir ar gyfer partneriaid yn atgyfnerthu gwaith cyflawni, ac mae'r Tîm Arwain Eiddo yn adolygu prosiectau a phapurau cynghori er mwyn sicrhau bod effeithiau ar fioamrywiaeth yn cael sylw. At hynny, mae Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo ymwybyddiaeth ar draws cyrff cyhoeddus

[23] Cydnerthedd Ecosystemau yn Gryno 1: Beth yw cydnerthedd ecosystemau?

a grwpiau proffesiynol, gan dynnu sylw at ddyletswyddau bioamrywiaeth unigryw Cymru ac arwain drwy esiampl.

**Adeiladau a Statws Carbon Isel / Sero Net**

Mae Llywodraeth Cymru yn arddangos dulliau o leihau carbon ar draws ei phortffolio eiddo, ac mae'n mynnu bod pob datblygiad masnachol newydd yn cyrraedd safonau sero net wrth weithredu. Mae safleoedd yn integreiddio trafnidiaeth gynaliadwy a theithio llesol, ac mae prosiectau megis AMRI (yn y gogledd) a Dwyrain Cross Hands (yn Sir Gaerfyrddin) yn llwyfan ar gyfer adeiladau sero net sy'n defnyddio ynni'n effeithlon. At hynny, mae Llywodraeth Cymru yn hybu storio carbon drwy greu coetiroedd a rheoli priddoedd, gan ymgorffori cyfleoedd i blannu a gwella cynefinoedd mewn uwchgynlluniau a dulliau o reoli safleoedd.

**Y Swyddogaeth Rheoli Asedau**

Mae swyddogaeth Rheoli Asedau Llywodraeth Cymru yn ymgorffori gwarchod bioamrywiaeth ar draws yr ystad drwy ddulliau rheoli tirwedd a gaiff eu harwain gan gontractwyr a'u llywio gan arfarniadau ecolegol. Mae'r mesurau yn cynnwys pori sy'n briodol i rywogaethau, plannu coed, adfer terfynau, rheoli rhywogaethau goresgynnol, ac addasu adeiladau ar gyfer ystlumod ac adar. Mae gofynion o ran tirlunio'n rhoi blaenoriaeth i rywogaethau lleol, deunyddiau cynaliadwy, a gwarchod safleoedd nythu.

Caiff effeithlonrwydd ynni ei hybu drwy ddefnyddio mesuryddion clyfar, darparu pwyntiau gwefru cerbydau trydan, uwchraddio goleuadau i rai LED/solar, a mabwysiadu systemau carbon isel wrth adnewyddu. Mae gwelliannau i fioamrywiaeth yn cynnwys creu blodau gwyllt, blychau cynefin, a nodweddion ecolegol arferol. Ar draws safleoedd megis Brocastell, Bro Tathan, Llanelli Gate a Fferm Gilestone, mae prosiectau yn rheoli cynefinoedd, yn gwarchod rhywogaethau ac yn sicrhau cydnerthedd ecolegol, gan gyfuno gwaith lleihau carbon â gwaith moderneiddio'r ystad.

**Prosiectau Eiddo – Datblygu Safleoedd Strategol**

Mae Llywodraeth Cymru yn cyflenwi safleoedd strategol ar draws Cymru, gan ymgorffori bioamrywiaeth a chynaliadwyedd mewn tir a seilwaith cyflogaeth. Mae enghreifftiau'n cynnwys Tŷ Du lle caiff coetir a choridor afon eu gwarchod; Brocastell lle ceir trefniadau trwyddedu'n ymwneud â phathewod a gwelliannau i gynefinoedd; a Rhyd-y-Blew lle caiff cornchwiglod ac amffibiaid eu diogelu. Mae prosiectau llai o faint megis ail-doi LSN ac adfer Glofa Blaenant yn ymgorffori mesurau'n ymwneud ag ystlumod ac adar, ac mae safleoedd megis Dafen ac Ystad Woodlands yn mynd i'r afael â niwtralrwydd o ran maethynnau a gwaith dylunio sensitif. Ar y cyd, mae'r prosiectau hyn yn dangos bod gwarchodaeth ecolegol a dylunio cynaliadwy'n cael eu hintegreiddio mewn gwaith datblygu.

**Cyfraniadau at Astudiaethau, Ymchwil a Pholisi**

Mae'r is-adran yn cefnogi ymchwil ym maes bioamrywiaeth ac yn cefnogi polisi cynllunio. Ymhlith ei chyfraniadau y mae bioreolaeth ar rywogaethau goresgynnol, Cynllun Gwella Strategol Gwastadeddau Gwent sy'n asesu safleoedd Coridor yr M4 o gwmpas Casnewydd ac sy'n llywio canllawiau Polisi 9, ac integreiddio bioamrywiaeth yn uwchgynlluniau Celtic Lakes. Mae'r Cynllun Gwella Strategol wedi cryfhau cydweithio trawslywodraethol ac wedi dylanwadu ar Bolisi Cynllunio Cymru, gan ddangos sut y gellir ymgorffori cydnerthedd ecolegol mewn fframweithiau cenedlaethol.

**Amcanion y Cynllun Gweithredu Adfer Natur: 1, 2, 3, 4, 5, 6**

## 2.18 Priddoedd – Y Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd

Mae gwaith adfer y Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd yn cyflawni manteision uniongyrchol i gynefinoedd Adran 7 (cyforgors, gorgors, ffeniau/corsydd ar yr iseldir a'r ucheldir; coetir gwlyb os ar fawn). O 2023 i 2025, cafodd >1,200 hectar eu hadfer yn llawn, gyda gweithgareddau gwella cynefinoedd ehangach yn gyfwerth â chyfanswm o oddeutu 3,184 hectar

(2023/24) a 2,073 hectar (2024/25). Mae monitro'n dangos bod gwaith adfer yn gosod cynefinoedd ar y llwybr tuag at wella, ac mae gwaith ar y gweill i ddatblygu offer hydrolegol a metrigau bioamrywiaeth. Mae manteision ychwanegol yn cynnwys lleihau'r risg o dân oherwydd bod mawndir wedi'i ailwlychu yn atal tanau gwyllt rhag ymledu; a gwaith monitro infertebratau, a ganfu dystiolaeth cyn pen tair blynedd ar ôl y gwaith adfer bod ffawna infertebratau yn dechrau ymdebygu i ffawna arwynebau corsydd sydd bron yn naturiol.

Ar gyfer blynyddoedd ariannol 2023-2024 a 2024-2025, roedd cyfanswm y gweithgarwch gwella cynefin fel a ganlyn:

| **Cynefin** | **23/24** | **24/25** |
|---|---|---|
| Llaciau, ffeniau a chorsydd ar yr ucheldir | 191.25 | 282.34 |
| Ffeniau a chorsleoedd ar yr iseldir | 9.2 | 21.45 |
| Cyforgorsydd | 1005.48 | 483.43 |
| Gorgorsydd nad ydynt ar Ystad Goetir Llywodraeth Cymru | 668.13 | 410.5 |
| Gorgorsydd sydd ar Ystad Goetir Llywodraeth Cymru | 203.68 | 204.64 |
| Gorgorsydd (wedi'u cyfuno) | *871.81* | *615.14* |
| **Cyfanswm y gweithgarwch ar gynefinoedd rhestredig (hectar)*** | **2077.74** | **1402.36** |
| Yn weithgar ar dir nad yw wedi'i fapio yn gynefin** | 1106.2 | 1670.6 |
| **Cyfanswm y gweithgarwch ar bob math o dir (hectar)***** | **3183.94** | **2072.96** |

**Ni fydd y ffigurau hyn yn cynnwys gweithgarwch adfer er mwyn adfer gorgors o dir sydd wedi'i fapio ar hyn o bryd yn blanhigfa gonifferaidd.*

***Digwyddodd gweithgarwch adfer ar gyfanswm o 1106.2 hectar yn ystod cyfnod adrodd 2023-2024 a 1670.6 hectar yn ystod cyfnod adrodd 2024-2025 ar dir nad yw wedi'i fapio yn gynefin Adran 7; bydd cyfran o'r ffigurau hyn wedi bod ar blanhigfa gonifferaidd.*

****Mae gweithgareddau lluosog ar yr un ardal o fawn wedi'u cyfuno er mwyn peidio â chyfrif ddwywaith yr ardal sy'n cael gweithgarwch buddiol. Nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys y >1,200 hectar o fawndir yr adroddwyd yn ei gylch ac a adferwyd yn llawn yn ystod y cyfnod hwn – h.y. y 600 hectar a adferwyd a'r 2,583.94 hectar o weithgarwch gwella cynefin yn 23/24, a oedd yn dod i gyfanswm o 3,183.94 hectar.*




**Amcanion y Cynllun Gweithredu Adfer Natur: 1, 2, 3, 4, 5, 6**

## 2.19 Trafnidiaeth

Roedd Llwybr Newydd i Natur (2023) yn pennu camau gweithredu ar gyfer y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol. Drwy gronfa gwerth £2.4 miliwn (2024), roedd yn bosibl creu a gwella cynefinoedd (cafodd tua 144 hectar eu gwella), plannu rhywogaethau brodorol ar raddfa eang, a rheoli coetiroedd ac arloesi ynddynt

(e.e. cyflwyno seilwaith caredig i amffibiaid). Roedd y gwaith hwnnw'n cynnwys plannu 30,000 o goed a phrysglwyni brodorol newydd a 240,000 o blanhigion a bylbiau brodorol ifanc gan Asiantaeth Cefnffyrdd De Cymru ac Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru, ehangu glaswelltiroedd blodau gwyllt, creu gwrychoedd, creu blychau bywyd gwyllt, rheoli pyllau, rheoli rhywogaethau goresgynnol ac ymgysylltu â chymunedau. Roedd y camau gweithredu'n cynnwys:

- Plannu blodau gwyllt: 2,850 o flodau gwyllt brodorol, gan gynnwys tamaid y cythraul ar gyfer brithegion y gors.
- Hau blodau gwyllt: 14,829 $m^2$ wedi'i hau.
- Addasu trefniadau torri glaswellt er budd bioamrywiaeth.
- Plannu rhywogaethau prin: 11 o boplys duon; 1,983 o ddrain duon a 200 o lwyfenni llydanddail ar gyfer brithribinau.
- Plygu 2,025 metr o wrychoedd.
- Gosod 225 o flychau bywyd gwyllt, gan gynnwys 90 o flychau pathewod, 66 o flychau adar a bywyd gwyllt, 49 o flychau ystlumod, 17 o flychau gwybedogion brith a 3 o flychau gwenoliaid du.
- Rheoli 3,190 $m^2$ o byllau.
- Cwblhau arolygon ecolegol manwl ar 20% o'r rhwydwaith ystad feddal gan ddefnyddio meddalwedd wedi'i theilwra.



Plannu 215,000 o fylbiau a blodau'r gwanwyn mewn amryw leoliadau yng Nghaerfyrddin er mwyn darparu ffynhonnell gynnar o neithdar ar gyfer pryfed peillio.



Potiau cwter caredig i amffibiaid (gweler y llun uchod) a ddatblygwyd gan fyfyriwr doethuriaeth ym Mhrifysgol Abertawe.



Cilfan Scleddau ar yr A40 yn Sir Benfro: mae'r drefn ar gyfer rheoli'r safle wedi'i llacio, o dorri'r glaswellt bedair gwaith y flwyddyn i'w dorri unwaith ddiwedd yr haf a'i gasglu er mwyn gwella gwerth y safle o ran bioamrywiaeth.



Plannu drain duon er mwyn cynnal y brithribin brown, a nifer fach o lwyfenni llydanddail er mwyn cynnal y brithribin w wen.

**Amcanion y Cynllun Gweithredu Adfer Natur: 1, 2 3, 4, 5, 6**

## 2.20 Dŵr

Mae blaenoriaethau strategol ar gyfer cwmnïau dŵr yn pwysleisio canlyniadau o ran bioamrywiaeth ac atebion sy'n seiliedig ar natur. Mae cynlluniau Rheoli Llifogydd yn Naturiol ar gyfer 2023-25 wedi sicrhau enillion mawr o ran bioamrywiaeth. Mae'r canlyniadau yn cynnwys plannu coed brodorol a choridorau coetir ar raddfa fawr (roedd hynny'n cynnwys plannu 18,000 o goed ym Mharc Cwm Darren a 88,000 yn y Foel), adfer gwlyptir a mawndir er mwyn storio carbon a gwella ansawdd dŵr, a phlannu ar hyd glannau afonydd er mwyn sefydlogi afonydd a chynnal bywyd gwyllt. Mae cynefinoedd dyfrol wedi cael eu cyfoethogi drwy argaeau o falurion pren, ac mae prosiectau trefol wedi ehangu seilwaith gwyrdd a mannau pryfed peillio. Mae dulliau gwell o reoli pridd yn hybu bioamrywiaeth a'r gallu i storio carbon, ac yn esgor ar fanteision ehangach o ran hamdden ac amwynder ac o ran ymgysylltu â chymunedau.

Gwnaeth cynlluniau 2025-26 adeiladu ar y blynyddoedd blaenorol er mwyn ehangu coetir, gwlyptir a chynefinoedd dolydd, gwella cysylltedd ecolegol, ac adfer prosesau hydrolegol naturiol drwy argaeau tyllog ac ailgysylltu gorlifdiroedd. Mae prosiectau hefyd yn canolbwyntio ar adfer mawndir a phriddoedd, seilwaith gwyrdd trefol, a chynlluniau draenio cynaliadwy cymunedol. Mae cydweithio ag awdurdodau lleol a thirfeddianwyr yn galluogi manteision ar raddfa'r dirwedd, ac mae gwaith monitro'n sicrhau bod enillion o ran bioamrywiaeth yn cael eu mesur a'u bod yn llywio camau gweithredu yn y dyfodol.

Mae manylion am rai o'r prosiectau i'w gweld yma

Mae'r Rhaglen Gyfalaf Ansawdd Dŵr wedi buddsoddi £56 miliwn ers 2022. Mae'n cynnwys cyweirio mwyngloddiau metel, er enghraifft gwaith sy'n atal dros 20 tunnell o sinc, plwm a chadmiwm y flwyddyn rhag mynd i mewn i ddyfrffyrdd yn Fron-goch, a gwella statws a chydnerthedd ecolegol.

**Amcanion y Cynllun Gweithredu Adfer Natur: 1, 2, 3, 4, 5, 6**

## 3. Y camau nesaf

Mae’r camau nesaf yn cynnwys gweithredu’r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (o 2026 ymlaen), parhau i gyflawni’r fframwaith 30x30, symud Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) yn ei flaen a’i weithredu, a chyflwyno ar raddfa fwy fentrau lleol a mentrau ar raddfa’r dirwedd, sy’n cynnwys Tirweddau Dynodedig a Lleoedd Lleol ar gyfer Natur.